OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 No. 371

## Rheoliadau Clefydau Egsotig mewn Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019

**Rheoliadau Clwy'r Traed a'r Genau (Rheoli Brechu) (Cymru) 2006**

**3.**—(1) Diwygir Rheoliadau Clwy'r Traed a'r Genau (Rheoli Brechu) (Cymru) 2006(**1**) fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 9, ar ôl paragraff (3) mewnosoder—

"(4) At ddibenion paragraff (1)(c), mae pwynt 3.2 o Atodiad X i Gyfarwyddeb y Cyngor 2003/85/EC i'w ddarllen fel pe bai—

(a) y cyfeiriad at "Member States" yn gyfeiriad at "the Welsh Ministers";

(b) Erthygl 2(u) o Gyfarwyddeb 2001/89/EC fel y mae'n gymwys i bwynt 3.2 wedi ei haddasu fel bod—

(i) y geiriau "region, as defined in Article 2(2)(p) of Council Directive 64/432/EEC", wedi eu disodli gan "county or county borough in Wales";

(ii) "such a region" wedi ei ddisodli gan "such a county or county borough"".″

(3) Yn rheoliad 27—

(a) yn lle "o fewn y Gymuned" rhodder "ag Aelod-wladwriaeth, Norwy, Gwlad yr Iâ neu Liechtenstein";

(b) disodlir pennawd y rheoliad hwnnw gan "Masnach mewn anifeiliaid a frechwyd".

(4) Yn rheoliad 35(2)(a), yn lle "rhwymedigaethau UE" rhodder "chyfraith yr UE a ddargedwir".

(**1**) S.I. 2006/180 (Cy. 31) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2011/1043 ac y ceir diwygiadau eraill iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.